I Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gwelwch isod Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Penfro ar y mentrau Teithio Llesol a gyflawnwyd yn 2017/2018.

Y camau a gymerwyd i hybu teithiau llesol.	Cynhyrchodd yr Awdurdod ERM diweddar ac INM, oedd yn cynnwys dros 160 o gynlluniau i'r Gweinidog a gymeradwyodd y cyflwyniad. Rhoddwyd hyfforddiant KerbKraft ar gyfer Cerddwyr i 939 o blant, a gwblhaodd yr hyfforddiant ym mlwyddyn academaidd 2017/18 (Grant Diogelwch y Ffordd o £35,100). Rhoddwyd hyfforddiant Beicio i Safonau Cenedlaethol i 1011 o blant, ym mlwyddyn academaidd 2017/18 (Grant Diogelwch y Ffordd o £34,038). Cynhaliwyd digwyddiadau cerdded i'r ysgol yn ystod wythnos cerdded i'r ysgol ym Mai 2017 a 2018 gyda nifer o ysgolion. Hyrwyddwyd wythnos beicio i'r ysgol, diwrnodiau hwyl ar feic a chefnogwyd reidiau beic dan arweiniad ysgolion drwy gydol y flwyddyn (yn cael eu hariannu gan Gyngor Sir Penfro). Cynhaliwyd gweithdai teithio llesol Sustrans mewn tair ysgol yn y sir gan hybu cerdded a beicio. Ym y fenter 'Beiciwch ef', a redwyd gan Sustrans, gwnaeth ysgolion Sir Benfro yn eithriadol o dda, gan ddod yn 4ydd ymhlith yr holl ysgolion ar draws y wlad a fanteisiodd ar y fenter, gyda chyfanswm o 2,763 o deithiau wedi eu gwneud. Anfonodd yr Awdurdod holiaduron i'r ysgolion yn y Sir i ddarganfod lefelau cerdded a beicio i'r ysgol. Ceir trafodaeth barhaus gyda chydweithwyr yn yr adrannau cynllunio,

	priffyrdd ac addysg i hybu a darparu teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd. Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda Sustrans a rhanddeiliaid gan gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar lwybr cyd-ddefnyddio yn cysylltu aneddiadau teithio llesol Arberth a Hwlffordd. Mae yna bartneriaeth barhaus gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i ddatblygu llwybrau newydd a hybu cerdded a beicio drwy sefydlu seminar ar gyfer addysgu staff ynglŷn â buddion cerdded gan gynnwys cyfarwyddyd ynghylch mesurau diogelwch (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro). Trafod gyda gwirfoddolwyr Sustrans a beicwyr i gynnal gwaith archwilio ar y llwybrau beicio presennol o fewn y Sir. Mae'r rhaglen "Gadewch i ni grwydro Sir Benfro", sy'n cynnwys partneriaid yn y sector gwirfoddol, y Parciau Cenedlaethol, adrannau'r Cyngor a'r sector iechyd, yn edrych ar gynlluniau arloesol i hybu cerdded a beicio. Cynhaliwyd sesiynau'r criw hanfodol ar gyfer 1,304 o ddisgyblion uwchradd gyda Theithio Llesol wedi ei gynnwys yn y rhaglen. Cafodd prosiectau Gallu Cerdded, oedd yn annog pobl â phroblemau iechyd i ymarfer mwy, eu rhedeg mewn partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Fe wnaeth 'O Arfordir i Arfordir', sef cyhoeddiad Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, gynorthwyo i hybu mynediad cynaliadwy, gan gynnwys cerdded a beicio (Cyhoeddiad yn ei ariannu ei hun drwy arian hysbysebu).

	Cafodd llwybrau cerdded a beicio eu hybu ar wefannau Sir Benfro (gyda chyllid craidd gan Gyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro). Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i hybu cerdded a beicio (cylch gwaith cyfathrebu corfforaethol Cyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro). Hysbysebion yn y wasg leol yn hybu cerdded a beicio (cyllid craidd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro). Menter beicio symudedd beic i bobl o amrywiol eu gallu gyda 1,801 yn cymryd rhan. Cynghori datblygwyr ynghylch gofynion i sicrhau bod strategaeth gludiant pob datblygiad yn cysylltu â'r llwybr cerdded presennol a'r rhwydwaith llwybrau cyd-ddefnyddio er mwyn sicrhau bod dewisiadau amlddefnydd ar gael. Mae gwaith monitro Teithio Llesol yn cynnwys gosod dyfeisiadau cyfrif mewn nifer o leoliadau er mwyn ei gwneud yn bosibl monitro llwybrau Teithio Llesol.
Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd ynghyd â'r cyfleusterau a'r gwelliannau cysylltiedig.	Mae seilwaith cerdded a beicio wedi cael ei gyflwyno a'i hybu o fewn rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Edrychwyd ar gynlluniau Teithio Llesol tymor byr a thymor canolig gyda golwg ar ddichonoldeb, cynllun cyn gwaith, ymgynghoriad, tir (Cronfa Teithio Llesol Cludiant Lleol, £175 mil gan Lywodraeth Cymru)**.** Astudiaethau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru megis Astudiaeth Menter Dyfrffordd y Cleddau, Astudiaeth Gorlawnder Hwlffordd, yn edrych ar ddarpariaeth Teithio Llesol o fewn cylch gwaith yr astudiaeth.

	Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys yn eu rhaglen astudiaethau dichonoldeb i gynlluniau Teithio Llesol ar rwydwaith y Cefnffyrdd.
Y costau a achoswyd gan lwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau, a gwelliannau i lwybrau teithio llesol oedd yn bod eisoes a'r cyfleusterau cysylltiedig, a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol.	Cwrb Isel o fewn aneddiadau Teithio Llesol (cyllideb rhaglen gostwng cwrb blynyddol). Hwlffordd • Heol Penfro £2,347 Aberdaugleddau: o Y Rath £3,465 o Heol Fictoria £11,500 o Rhodfa'r Rheithordy £1,749 o St Anne's Place £2,330 o Heol Picton £2,300 Neyland o Cylchdro Honeyborough £1,107 o Parc y Coleg £700 Doc Penfro o Amphion Court £832 o Stryd Imble £3,600 o Lôn yr Harbwr £540 o Heol y Pier £1,378 o Stryd Owen £1,402 Penfro o Grove Hill £1,778 Dinbych-y-pysgod o Parc y Ceirw £581 o Stryd St Julian £652

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

Gwariant dangosol ar lwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau i lwybrau teithio llesol sy'n bod eisoes a'r cyfleusterau cysylltiedig a gyllidir neu a ran-gyllidir gan drydydd partïon.	Gwelliannau i fynediad i Ganol Tref Abergwaun (Cyswllt y Simnai) (Cyfanswm Cronfa Trafnidiaeth Leol gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer holl gydrannau'r prosiect £443,000). Rhaglen fonitro i ganfod niferoedd defnyddwyr lefel sylfaenol ar gyfer mentrau cerdded a beicio ar lwybrau

	teithio llesol yn y Sir (costau Llywodraeth Cymru am gyllido Teithio Llesol i gael eu penderfynu).
Hyd y llwybrau newydd Cerdded Beicio Cyd-ddefnyddio	 Pen-Bryn i Gilgerran (1,040 metr). D/B A478 Croeslon Pelcomb i Bont Pelcomb (1,230 metr). A4075 o'r Gylchfan i Eagle Lodge (860 metr).
Hyd y llwybrau sydd wedi eu gwella: Cerdded	 INMGO005 Parrog Abergwaun i Marine Walk (110 metr). INMSA011 Cwm Gwennol Saundersfoot i Saundersfoot (450 metr). INMSA011 O'r Hafan Saundersfoot i Westy St Brides (231 metr). INMTE024 Dinbych-y-pysgod A478 (Park House) (288 metr). INMTE025 O Heywood Lane i Lamack Vale, Dinbych-y-pysgod (340 metr). INMTE003 O Heywood Court i Serpentine Road, Dinbych-y-pysgod (100 metr) Dyffryn Wdig (90 metr). Stryd Fawr Bethania Doc Penfro (20 metr). INMPD019 A477 Heol Llundain, Doc Penfro (340 metr). Heol Gelliswicik, Aberdaugleddau, i

	St Lawrence Hill (780 metr) (Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau). Heol Picton, Aberdaugleddau, i Heol Gelliswick (350 metr) (Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau). Havens Head, Aberdaugleddau, i Heol Liddeston (730 metr) (Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau). Crundale, Hwlffordd, (y tu allan i gyffordd Parc Ashford (30 metr). Heol Llwyn Helyg, Hwlffordd (165 metr). Maes-y- Dre i Heol y Santes Non, Tyddewi, (490 metr) (dim mewn anheddiad Teithio Llesol).

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Cynlluniau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid Teithio Llesol ac a gymeradwywyd i'w cwblhau erbyn Ebrill 2019

Anheddiad Teithio Llesol	**Cyfeirnod INM**	**Enw'r Cynllun**	**Math o Gynllun**	**Cost £**	**Disgrifiad o'r Cynllun**	**Amcangyfrif o'r Gost**	**Blaenoriaeth**
Abergwaun/Wdig	INMF15	Cyswllt SUP Canol y Dref - Parc Lota i Stryd y Gorllewin	Llwybr cyd-ddefnyddio	£73 mil	Fishguard - Town Centre SUP.pdf	£73,000	1
Hwlffordd	INMHW22	Cyswllt Llyn y Castell	Cyswllt llwybr troed Canol y Dref	£265 mil	Haverfordwest - Castle Lake Link.pdf	£265,000	2
Neyland	INMNE12	A477 Croesfan Pont Westfield Pill	Pwynt Croesi'r llwybr cyd-ddefnyddio	£100 mil	Neyland - Westfield Pill Crossing Improver	£100,000	5
Arberth	INMNA22	Redstone Court i'r Clwb Rygbi	Cyswllt llwybr troed	£35 mil	Narberth - Redstone Court Foo	£35,000	3
Llandudoch	INMD001	O derfyn y Sir at y Moorings	Gwelliant i'r llwybr troed	£20 mil	St Dogmaels - Footway Improveme	£20,000	4

Rwyf yn cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r Canllawiau Statudol ar gyfer Darparu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Ian Westley ,M.A. B.Eng.(Anrh), C.Eng, M.I.Mech.E, M.C.I.B.S.E

Prif Weithredwr
Cyngor Sir Penfro